

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cyngorydd S.D. Perkes (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr G. Bruce, C.A. Cave, C.E.A. Champion, C.M. Cowpe, P. Drake, A.M. Ernest, W. Gilligan, N.P. Hodges, Dr. I.J. Johnson, I.A.N. Perry, C. Stallard, E. Williams ac M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr C.P. Franks, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, S. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol) ac R.R. Thomas.

### CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

### YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr I.R. Buckley a H.M. Payne.

### COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir, yn amodol ar y newid a ganlyn ar dudalen 4, ynghylch Datganiad o Ddiddordeb y Cyngorydd Wilson mewn perthynas ag Eitem 8 ar yr Agenda – cais rhif 2022/01113/RG3 – Tir ar Fferm Cosmeston Isaf, Larnog:

- Mai natur buddiant y Cyngorydd Wilson oedd bod gan y Cyngorydd Wilson berthynas a oedd yn ddisgybl yn Ysgol Y Deri, nid perthynas oedd yn gweithio yn Ysgol Y Deri, fel y nodwyd yn flaenorol.

### DATGANIADAU BUDDIANT –

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb a ganlyn:

<b>Cynghorydd</b>	<b>Rhif Eitem Agenda</b>	<b>Natur y Diddordeb</b>
Cynghorydd C.A. Cave	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi: (i) Tir ac Adeiladau ym Biomas y Barri, Heol Woodham, Y Barri	Datganodd y Cynghorydd Cave fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Cave wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen. Dywedodd y Cynghorydd Cave y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd P. Drake	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi: (i) Tir ac Adeiladau ym Biomas y Barri, Heol Woodham, Y Barri	Datganodd y Cynghorydd Drake fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Drake wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen. Dywedodd y Cynghorydd Drake y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd N.P. Hodges	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi: (i) Tir ac Adeiladau ym Biomas y Barri, Heol Woodham, Y Barri	Datganodd y Cynghorydd Hodges fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Hodges wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen. Dywedodd y Cynghorydd Hodges y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd Dr. I.J. Johnson	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi:	Cynghorydd Dr. I.J. Johnson fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd

	(i) Tir ac Adeiladau ym Biomaz y Barri, Heol Woodham, Y Barri	bod y Cynghorydd Dr. Johnson wedi gwneud datganiadau cyhoeddus yn flaenorol ar y mater cynllunio hwn a'i fod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd S.D. Perkes	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi: (i) Tir ac Adeiladau ym Biomaz y Barri, Heol Woodham, Y Barri	Cynghorydd S.D. Perkes fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Perkes eisoes wedi trafod y mater cynllunio hwn fel aelod cynllunio ar Gyngor Tref y Barri. Dywedodd y Cynghorydd Perkes y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd N.C. Thomas	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi: (i) Tir ac Adeiladau ym Biomaz y Barri, Heol Woodham, Y Barri	Gwnaeth y Cynghorydd Thomas ddatganiad o ddiddordeb personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Thomas wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen. Dywedodd y Cynghorydd Thomas y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd E. Williams	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi:	Datganodd y Cynghorydd Williams fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd

	(i) Tir ac Adeiladau ym Biomas y Barri, Heol Woodham, Y Barri	bod y Cynghorydd Williams wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen, yn ogystal â bod yn gyn Aelod Cabinet yr oedd ei bortffolio yn gysylltiedig â materion Cynllunio. Dywedodd y Cynghorydd Williams y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.
Cynghorydd M.R. Wilson	Eitem Agenda 9 - Camau Gorfodi: (i) Tir ac Adeiladau ym Biomas y Barri, Heol Woodham, Y Barri	Datganodd y Cynghorydd Wilson fuddiant personol yn yr eitem hon. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Wilson wedi bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a oedd wedi ystyried yr eitem o'r blaen. Dywedodd y Cynghorydd Wilson y byddai'n ystyried yr eitem o'r newydd ac felly y byddai'n aros yn y cyfarfod tra'n ystyried y mater.

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026:  
CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR DDATBLYGU MANWERTHU A CHANOL  
TREFI A DATBLYGU ECONOMAIDD, TIR AC ADEILADAU CYFLOGAETH  
– ADBORTH YMGYNGHORI, NEWIDIADAU ARFAETHEDIG A MABWYSIADU  
(CYF) –**

Gohiriwyd y cyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 27 Chwefror, 2023 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda, yn dilyn trafodaethau gyda'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – GOHIRIO'r eitem hon a'i chyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Cynllunio unwaith y bydd fersiwn terfynol o'r adroddiad yn mynd yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried fersiwn derfynol yr adroddiad ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Cabinet.

CEISIADAU RHEOLI ADEILADAU A MATERION RHEOLI ADEILADAU ERAILL A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH ADFYWIO A CHYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) NODI'r ceisiadau rheoliadau adeiladau a basiwyd, fel y'u rhestrwyd yn Adran A yr adroddiad.
- (2) Y DYLLID nodi'r ceisiadau adeiladu a wrthodwyd, fel y'u rhestrir yn Adran B yr adroddiad.
- (3) NODI'r broses o gyflwyno Hysbysiadau dan y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2000, fel y'i nodir yn Adran C o'r adroddiad.
- (4) BOD Adran 32 o Ddeddf Adeiladu, 1984 yn cael ei gweithredu er mwyn cyflwyno Hysbysiadau mewn perthynas â chynlluniau sy'n dair blwydd oed neu fwy a nodi cyflwyno Hysbysiadau o'r fath, fel a restrir yn Adran D yr adroddiad.

CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG (PDC) –

PENDERFYNWYD – BOD y ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 10 trwy 21, o dan y pwerau wedi'u nodi uchod.

APELIADAU (PDC) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Y DYLLID nodi nad oedd unrhyw Apeliadau wedi'u derbyn ar adeg y cyfarfod.
- (2) Y DYLLID nodi nad oedd unrhyw Apeliadau Gorfodaeth wedi'u derbyn ar adeg y cyfarfod.
- (3) Y DYLLID nodi'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio, fel y manylwyd arnynt yn Adran C yr adroddiad.
- (4) Y DYLLID nodi nad oedd unrhyw Benderfyniadau Apeliadau Gorfodi wedi'u derbyn ar adeg cynnal y cyfarfod.
- (5) BOD yr ystadegau sy'n ymwneud ag apeliadau am y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024, fel y manylir yn Adran E yr adroddiad, yn cael eu nodi.

## COED (PDC) –

(i) Rhestr Ddirprwyedig

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r ceisiadau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ar dudalennau 26 a 27, fel y penderfynir gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy o dan bwerau dirprwyedig.

## CAMAU GORFODI (PDC) –

(i) Tir ac Adeiladau ym Biomas y Barri, Heol Woodham, Y Barri

PENDERFYNWYD – Cytuno ar yr argymhellion gorfodi a amlinellwyd yn yr adroddiad ar dudalen 40, a bod swyddogion yn ysgrifennu at PEDW fel y nodir isod.

(1) Hysbysu Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PEDW) y byddai'r Cyngor yn cytuno i amrywiadau i'r Hysbysiad Gorfodi presennol a gyhoeddwyd dan Adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) fel a ganlyn:

- (i) Y tor-rheolaeth cynllunio a honnir yn y Rhybudd Gorfodaeth i gyfeirio at gyflawni datblygiad gweithredol sy'n cynnwys adeiladu gwaith ynni adnewyddadwy sy'n llosgi coed ynghyd â strwythurau cysylltiedig nad ydynt yn unol â'r manylion a'r cynlluniau a gymeradwywyd dan gais cynllunio 2015/ 00031/OUT (h.y. torri amod(au) y caniatâd hwnnw).
- (ii) Gofynion y Rhybudd Gorfodaeth i gynnwys cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a'r cynlluniau a gymeradwywyd dan gais cynllunio 2015/00031/OUT.